



YSGOLION YR 21^{AIN} GANRIF



ADRODDIAD YMGYNGHORI

YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD TREF-Y-RHYG A THROSLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYMUNED TONYREFAIL

Mae'r Adroddiad Ymgynghori a'r Atodiadau hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

Tabl Cynnwys		
Cynnwys		Tudalen
1.	Cynnig	2
2.	Nod yr Adroddiad Ymgynghori	2
3.	Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori?	2
4.	Y Broses Ymgynghori	3
5.	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	4
6.	Ymateb Estyn	21
7.	Aseiad o'r Ymgynghoriad	22
8.	Casgliad	22
Atodiadau		
1A.	Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gymuned Tonyrefail	
1B.	Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg	
2A.	Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gymuned Tonyrefail	
2B.	Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg a Chyflwyniad Cyngor Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.	
3.	Ymateb Estyn – Cynnig Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg	
4.	Adborth gan y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant	

1. Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac ymestyn dalgylch Ysgol Gymuned Tonyrefail i ymgorffori dalgylch Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Y cynnig yw y bydd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cau ac y bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymuned Tonyrefail erbyn mis Medi 2025.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Cau ysgol a gynhelir.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Aseidiadau Effaith a gafodd eu dosbarthu i'r holl rhanddeiliaid. Mae'r ddolen i'r dogfennau yma isod:

[Cynnig i gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymuned Tonyrefail | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf \(rctcbc.gov.uk\)](https://www.rctcbc.gov.uk)

2. Nod yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Ei nod yw rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid sydd wedi'u rhestru isod am ganlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng dydd Llun 30 Medi 2024 a 5pm ddydd Gwener 15 Tachwedd 2024.

3. Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori?

Cafodd copi o'r Ddogfen Ymgynghori, a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am y cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y Ddogfen Ymgynghori ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

- Cyrff Llywodraethu:
 - Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
 - Ysgol Gymuned Tonyrefail
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (YGG Tonyrefail)
 - Ysgol Gynradd Cwmlai
 - Ysgol Gynradd Hendreforgan
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff:
 - Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
 - Ysgol Gymuned Tonyrefail
- Disgyblion:
 - Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
 - Ysgol Gymuned Tonyrefail
- Cynghorau Cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau o'r Senedd dros etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon, Taf-elái ac Ogwr, ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal.

- Aelodau Seneddol dros etholaethau Merthyr Tudful ac Aberdâr, Cwm Rhondda ac Ogwr a Phontypridd
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer yr ardal
- Darparwyr Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Cymuned Tonyrefail

4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd dolen at gopiâu electronig o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Aseidiadau Effaith ei hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn adran 3. Daeth copiâu papur i law pob un a wnaeth gais am un. Mae'r tabl sy'n dilyn hefyd yn amlinellu'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnull gyda Chyrff Llywodraethu, Aelodau o Staff a Chynghorau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail.

Lleisio'ch barn			
Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio	Cyfadran	Amser/Dyddiad	Lleoliad
Cyngor Ysgol			
Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg	Cyngor Ysgol.	Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024 am 2pm	Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
Ysgol Gymuned Tonyrefail	Cyngor Ysgol		Ysgol Gymuned Tonyrefail
Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff			
Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg	Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff	Dydd Llun, 21 Hydref am 3.45pm.	Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
Ysgol Gymuned Tonyrefail	Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff		Ysgol Gymuned Tonyrefail
Sesiwn galw heibio i'r cyhoedd			
Rhieni/gwarcheidwaid gymuned leol.	ac aelodau o'r	Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024 rhwng 3.30pm a 5.30pm	Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
			Ysgol Gymuned Tonyrefail

Cafodd yr holl gyfarfodydd ar gyfer Cyrff Llywodraethu ac Aelodau o Staff sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl blaenorol eu cynnal wyneb yn wyneb.

Mae nodiadau'r cyfarfod a gafodd eu cymryd yn y cyfarfod gyda'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail ddydd Llun 21 Hydref am 3.45pm wedi'u hatodi yn *Atodiad 1A – Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gymuned Tonyrefail* ac *Atodiad 1B – Cofnodion*

Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd ynghyd â'r ymatebion a gafodd eu darparu lle'r oedd hynny'n briodol.

Mae nodiadau'r cyfarfod a gafodd eu cymryd yn y cyfarfod gyda Chynghorau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail ddydd Mercher 6 Tachwedd 2024 am 2pm wedi'u hatodi yn Atodiad 2A – Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gymuned Tonyrefail ac Atodiad 2B – Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd ynghyd â'r ymatebion eu darparu lle'r oedd hynny'n briodol.

Cafodd dwy sesiwn galw heibio eu trefnu hefyd er mwyn i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn. Cafodd y sesiynau yma eu cynnal wyneb yn wyneb yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail ddydd Mercher 6 Tachwedd 2024 rhwng 3.30pm a 5.30pm. Yn y sesiynau galw heibio yma, gofynnwyd i bawb gofnodi i mewn er mwyn cofnodi'r lefel bresenoldeb. Mae'r gofrestr presenoldeb yn nodi bod cyfanswm o 18 o bobl wedi llofnodi i mewn yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg a phedwar o bobl wedi cofrestru yn Ysgol Gymuned Tonyrefail. Gofynnwyd i'r sawl a fynychodd gwblhau Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a'i chyflwyno. Gwnaethpwyd cofnod o'r sylwadau llafar a wnaed ym mhob sesiwn galw heibio cyhoeddus ac mae wedi'i gynnwys o fewn themâu'r Adroddiad Ymgynghori yma.

5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu a'r aelodau o staff a chyfarfodydd y Cyngor Ysgol wedi'u crynhoi yng nghofnodion cyfarfodydd sydd wedi'u hatodi yn Atodiad 1A, 1B, 2B a 2B, yn y drefn honno.

Cafodd gyfanswm o 98 o ymatebion eu cyflwyno. Derbyniwyd 8 yn ysgrifenedig a derbyniwyd 89 trwy'r arolwg ar-lein (un ymateb oedd yr arolwg ar-lein ynghyd â gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol). Yn ogystal â hyn, ychwanegwyd 714 o lofnodion at ddeiseb ar-lein, mae hwn wedi'i ddsbarthu fel un ymateb at ddiben yr Adroddiad Ymgynghori yma. O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd 7 (7.1%) yn cytuno â'r cynnig, 86 (87.8%) yn anghytuno â'r cynnig a 5 (5.1%) ddim yn siŵr am y cynnig. Mae hyn wedi'i grynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad		
Penderfyniad	Nifer	%
Cytuno	7	7.1
Anghytuno	86	87.8
Ddim yn siŵr	5	5.1
Dim ateb	0	0.0
Cyfanswm	98	100.0

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (Ail Argraffiad) (011/2018), ceir crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad yn y tabl sy'n dilyn, ynghyd ag eglurhad (lle bo angen).

I gadarnhau, mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yma wedi'u darparu a'u hadolygu gan Aelodau Cabinet y Cyngor.

Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig	
Thema	Eglurhad
<p>Goblygiadau teithio llesol</p> <p>Goblygiadau teithio i Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Dim ond taith gerdded fer o fy nghartref yw Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, sy'n braf os ydyn ni eisiau ychydig o ymarfer corff."</i></p> <p><i>"Nid oes unrhyw ffordd y galla i gael fy mhlentyn i fynd i [Ysgol Gymuned Tonyrefail] bob dydd, yn enwedig yn ystod y gaeaf. Byddai fy mhlentyn wedi blino cyn i ni gyrraedd yr ysgol, fyddai hi ddim hyd yn oed yn cerdded, byddai'n stopio a gofyn i gael ei chario, a does dim modd i ni wneud hynny...Does dim modd i mi fforddio £68 y mis am fysiau, rydw i ar incwm isel a gyda chostau byw yn dal i godi, does dim ffordd y byddai modd i mi fforddio hynny...Dewisais Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg gan fy mod yn gwybod y byddai modd i mi gerdded yno ac yn ôl a chasglu fy mhlentyn o'r ysgol bob dydd."</i></p>	<p>Ystyrir bod yr holl lwybrau yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, Ysgol Gymuned Tonyrefail ac Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd gan lawer o ddisgyblion. O ganlyniad, ar hyn o bryd does dim cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n byw ledled ardal Tonyrefail sy'n byw o fewn meini prawf pellter cerdded dewisol presennol y Cyngor, sef 1.5 milltir yn yr achos yma. Fydd hyn ddim yn newid os caiff y cynnig yma ei roi ar waith.</p> <p>Er gwaethaf yr uchod, yn rhan o'r broses ymgynghori, mae'r Cyngor wedi comisiynu asesiad llwybr cerdded annibynnol rhwng Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail. Er ein bod ni'n dal i ddisgwyl am yr adroddiad terfynol, mae'r ymgynghorwyr annibynnol wedi cadarnhau y tybir bod y llwybr ar gael.</p> <p>O ran trafndiaeth gyhoeddus, mae bws gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg yn rheolaidd. Mae'r safleoedd bws yn agos at Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail. Serch hynny, yn anffodus, dydy cost a gweithredu trafndiaeth gyhoeddus yn yr ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor.</p>
<p>A fydd y cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a gaiff ei ddarparu i blant yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn parhau yn Ysgol Gymuned Tonyrefail?</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Dewisais newid ysgol fy merch i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg gan fod gyda hi Anghenion Dysgu Ychwanegol ac roeddwn i'n teimlo, ac rydw i'n dal i deimlo, y bydd hi'n derbyn mwy o gefnogaeth un i un, yn hytrach na bod yn rhif yn unig, yn cael hunaniaeth yn yr ysgol ac yn derbyn y gefnogaeth orau sydd ar gael."</i></p>	<p>Bydd. Bydd pob disgybl ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau wrth ddiwallu anghenion ADY plant a phobl ifainc. Mae gan blant a phobl ifainc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes gyda nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer.</p> <p>Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymhell bod lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion yn rhoi ymateb graddedig ar waith o ran diwallu'r anghenion yma. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd</p>

<p><i>"Mae fy merch yn ddisgybl ADY gyda CDU [Cynllun Datblygu Unigol] ac ni fyddai byth yn ymdopi mewn dosbarth mawr.</i></p>	<p>i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.</p> <p>Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb yma waeth pa fath o ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu.</p>
<p>Dylai plant fod yn rhan o'r penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Gwrandewch ar blant Ysgol [Gynradd Tref-y-Rhyg]. Roedd yn siomedig nad oedd plant ysgol yn cael siarad yng nghyfarfod [Cabinet] y Cyngor."</i></p>	<p>Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifanc yn bwysig, a bod yn rhaid eu cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol.</p> <p>Mae gan blant a phobl ifanc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, mae Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor wedi sicrhau bod trefniadau addas wedi'u gwneud i gynnwys plant a phobl ifanc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori yma ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.</p>
<p>Gallai gael effaith negyddol ar bresenoldeb disgyblion.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Bydd yn rhoi'r disgyblion hynny sydd eisoes dan anfantais o dan anfantais bellach. Dengys tystiolaeth y bydd cymuned lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn cynyddu eu presenoldeb. Bydd rhai o'r disgyblion â thaith gerdded 1.5 milltir bob ffordd, a fydd, yn ystod tywydd garw, yn effeithio ar eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad."</i></p>	<p>Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol statudol i sicrhau bod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael yr addysg sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, naill ai gartref neu yn yr ysgol. Yn y Cyngor, mae'r ddyletswydd gyfreithiol statudol yma wedi'i datganoli i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.</p> <p>Fel gyda phob ysgol, bydd presenoldeb yn cael ei fonitro a bydd cefnogaeth gan Wasanaeth Presenoldeb a Lles y Cyngor yn cael ei ddarparu lle bo angen. Mae Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles y Cyngor eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â disgyblion, rheini/gwarcheidwaid ac Ysgol Gymuned Tonyrefail i nodi strategaethau i wella presenoldeb disgyblion lle bo angen, a bydd yn parhau i wneud hynny pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.</p>
<p>Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn gwneud sylwadau negyddol ar y dosbarthiadau cymysg yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg,</p>	<p>Dim ond pedwar dosbarth sydd gan Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ar hyn o bryd, ac mae pob un o'r rhain yn cynnwys grwpiau blwyddyn cymysg, gydag un dosbarth yn cymysgu tri</p>

<p>ond mae dosbarthiadau cymysg hefyd yn Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi bod y dosbarthiadau cymysg sy'n Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn niweidiol i ddysgu a chyflawniad disgyblion. Hoffwn nodi bod dosbarthiadau cymysg yn cael eu gweithredu o ddewis yn Ysgol Gymuned Tonyrefail ac yn cael eu hysbysebu fel rhai iach ar gyfer yr amgylchedd dysgu. Felly, pa un ydyw, a yw dosbarthiadau cymysg yn niweidiol neu'n iach?"</i></p>	<p>grŵp blwyddyn. Gallai'r gostyngiad rhagamcanol yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg wneud y sefyllfa yma'n fwy heriol ymhen amser.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Gymuned Tonyrefail 12 dosbarth ac mae gyda hi ddau grŵp blwyddyn ym mhob dosbarth. Er nad yw dau grŵp blwyddyn mewn un dosbarth yn anghyffredin, byddai tri grŵp blwyddyn mewn un dosbarth yn cyflwyno heriau gwahaniaethu sylweddol. Mae'r sefyllfa yma yn debygol o ddod yn fwyfwy cyffredin yn Ysgol Tref-y-Rhyg os bydd y niferoedd yn parhau i ostwng.</p> <p>Mae heriau sylweddol i addysgu grwpiau blwyddyn cymysg ar draws mwy na 2 grŵp blwyddyn. Mewn dosbarth sy'n cael ei ystyried â'r nifer safonol o ddisgyblion, bydd bob amser ystod o alluoedd y bydd angen darparu ar eu cyfer trwy wahaniaethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn diwallu anghenion y disgyblion i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu a'u bod yn cael eu herio'n briodol. Mewn ysgol fach lle mae grwpiau blwyddyn cymysg ac ystod eang o alluoedd o fwy na dwy flynedd, gall fod yn heriol i'r staff addysgu a'r staff cymorth ddiwallu'r ystod eang o anghenion academaidd, yn ogystal ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, yr holl ddisgyblion. Cydnabyddir bod Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cynnig profiadau dysgu cadarnhaol i ddisgyblion, ond er hynny mae addysgu tri grŵp blwyddyn mewn un amgylchedd ystafell ddosbarth yn gallu bod yn her sylweddol mewn lleoliadau addysgol.</p>
<p>Da.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Yn gyffredinol, o ddarllen yr wybodaeth, mae'n ymddangos yn awgrym teg, er na fydd rhai yn hapus, mae'r ysgolion amgen a gaiff eu hawgrymu hefyd yn agos iawn."</i></p>	<p>Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn amlinellu manteision y cynnig.</p>
<p>Effaith ar y Gymuned</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p>	<p>Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gyfer y cynnig wedi'i baratoi yn unol â gofynion <u>Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Rifyn) (011/2018)</u>.</p>

<p><i>“Yr ysgol yw calon y gymuned, rydyn ni fel teulu agos ac mae athrawon yn gwybod beth yw anghenion pob plentyn unigol yn eu dosbarth ac rwy'n teimlo na fyddai eu symud i Ysgol Gymuned Tonyrefail yn helpu eu haddysg a gallai amharu ar eu cysylltiadau a chariad at yr ysgol.”</i></p> <p><i>“Mae'r ysgol yn rhan ganolog o'r gymuned ac wedi bod erioed.”</i></p>	<p>Serch hynny, yn ôl y cyngor yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, mae'r ddogfen wedi'i hailasesu a'i diweddarau yn dilyn adolygiad o'r sylwadau sydd wedi'u derbyn trwy gydol y broses ymgynghori. Mae'r fersiwn wedi'i diweddarau o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gael ar wefan y Cyngor ar ôl cyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad yn ffurfiol.</p>
<p>Effaith ar Rieni/Gwarcheidwaid</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>“Rwy'n dioddef yn fawr â fy mhryder yn meddwl am [fy mab] yn gorfod cychwyn mewn ysgol arall.”</i></p>	<p>Rydyn ni'n rhagweld na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion bod y Cyngor yn ystyried bod effaith gyffredinol y cynnig yn gadarnhaol.</p> <p>Bydd y trefniadau pontio a gaiff eu darparu ar gyfer disgyblion hefyd ar gael i rieni a gwarcheidwaid hefyd, a bydd cyfleoedd i rieni a disgyblion ymweld â'r ysgol cyn i unrhyw newidiadau gael eu rhoi ar waith, gyda chyfleoedd gwell i ddisgyblion ag ADY. Bydd hyn yn helpu'r disgyblion a'u teuluoedd i lywio'r newid ac ymgartrefu'n hapus yn eu hysgol newydd cyn gynted â phosibl.</p>
<p>Effaith ar ddisgyblion</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>“Byddai cau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn amharu ar addysg a lles emosiynol pob un o'n disgyblion sydd wedi ffurfio perthnasoedd hanfodol gyda'u hathrawon a'u cyfoedion mewn amgylchedd cyfarwydd”.</i></p>	<p>Mae lles pob disgybl yn bwysig iawn i'r Cyngor. Bydd y trefniadau pontio sy'n cael eu darparu yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i helpu disgyblion i lywio'r newidiadau ac ymgartrefu yn yr ysgol newydd mor gyflym â phosibl.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Cyngor yn ystyried buddion y cynnig i blant a phobl ifainc yn unol â'r saith prif amcan sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant.</p>
<p>Effaith ar aelodau o staff</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>“Mae'r posibilrwydd o golli swyddi i athrawon ac aelodau o staff yn bryder sylweddol ac mae'n bygwth sefydlogrwydd ariannol a'r gweithle ymroddedig sy'n meithrin ein disgyblion.”</i></p>	<p>Mae gan y Cyngor bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i aelodau o staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.</p> <p>Mae swyddogion AD y Cyngor eisoes wedi gweld pob aelod o staff Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac mae'r aelodau o staff i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael.</p>

<p>A oes lle yn Ysgol Gymuned Tonyrefail ar gyfer disgyblion o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg?</p> <p>Pryderon bod lle ym mhob grŵp blwyddyn ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Does dim modd i Ysgol Gymuned Tonyrefail ymdopi â nifer y disgyblion sydd gyda hi eisoes. Mae nifer y disgyblion sydd eisoes mewn dosbarth yn rhy uchel, os yw plentyn yn ei chael hi'n anodd, caiff ei adael ar ôl ac mae'n mynd drwy'r rhwyd."</i></p>	<p>Oes. Mae'r data disgyblion byw a gyfunwyd ar gyfer y ddwy ysgol yn dangos y bydd pob grŵp blwyddyn yn cael ei gynnwys yn Ysgol Gymuned Tonyrefail. Yn ogystal â hyn, bydd capasiti'r cyfnod cynradd yn cynyddu 30 i 415 o leoedd disgyblion, a chapasiti cyffredinol yr ysgol i 1,808. Bydd y cynnydd yma'n cael ei gyflawni trwy ddefnyddio ardal o fewn yr ysgol sydd wedi'i dynodi ar hyn o bryd yn ofod atodol. Bydd y gofod yma'n cael ei ailddynodi fel ystafell ddosbarth ac felly bydd lle i 30 o ddisgyblion ychwanegol.</p> <p>I nodi, dim ond 35.0% o'r disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu'r cyfnod cynradd yn Ysgol Gymuned Tonyrefail sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymuned Tonyrefail. Bydd y newidiadau cyfunol yma'n sicrhau y bydd lle i holl ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn Ysgol Gymuned Tonyrefail o fis Medi 2025. Bydd y Cyngor yn rhoi'r meini prawf derbyn ar waith yn llym, yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (005/2013) er mwyn rheoli dyrannu lleoedd o 2025 ymlaen.</p> <p>O ran sut mae disgyblion yn cael eu dosbarthu ar draws grwpiau blwyddyn, rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion (yn ystod addysg orfodol) hyd at eu Nifer Derbyn (ND) – mae modd dod o hyd i'w nifer derbyn yn Llyfr Dechrau'r Ysgol y Cyngor ar gyfer 2025-2026. Mae'r Nifer Derbyn cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gymuned Tonyrefail ar gyfer disgyblion oed cynradd statudol (derbyn i flwyddyn chwech) yn 55 ar gyfer dosbarth derbyn i flwyddyn chwech ar hyn o bryd.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod modd i ddisgyblion o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg fynychu Ysgol Gymuned Tonyrefail, bydd y capasiti yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cynyddu 30 o leoedd, gan gynyddu capasiti'r cyfnod Cynradd i 415 o leoedd, a chapasiti cyffredinol yr ysgol i 1,808. Bydd y cynnydd yma'n cael ei gyflawni trwy ddefnyddio ardal o fewn yr ysgol sydd wedi'i dynodi'n ofod atodol ar hyn o bryd. Bydd y gofod yma'n cael ei ailddynodi fel ystafell ddosbarth ac felly bydd lle i 30 o ddisgyblion ychwanegol.</p>
---	--

	<p>Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd y Nifer Derbyn cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cael ei adolygu. Byddai'r Nifer Derbyn newydd a gyhoeddwyd ar gyfer Ysgol Gymuned Tonyrefail yn 59.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r data disgyblion byw a gyfunwyd ar gyfer y ddwy ysgol yn dangos y bydd yr holl grwpiau blwyddyn yn cael eu cynnwys o dan y Nifer Derbyn cyhoeddedig newydd ar gyfer Ysgol Gymuned Tonyrefail. <p>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd lle ar draws yr holl grwpiau blwyddyn ar gyfer y disgyblion ychwanegol o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p>
<p>A oes lle yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (YGG Tonyrefail) ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Mae [Ysgol Gynradd Gymraeg] Tonyrefail yn llawn."</i></p>	<p>Bydd. Mae digon o le yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ar gyfer disgyblion o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg sy'n dymuno mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn lle parhau â darpariaeth addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gymuned Tonyrefail. Mae gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yr opsiwn i fynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol. Mae carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn darparu cymorth ardderchog i ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o'r sector addysg cyfrwng Saesneg. Mae'r ddarpariaeth yma wedi bod yn llwyddiannus mewn ysgolion eraill a bydd ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno ei defnyddio.</p>
<p>Mae mwy o ddisgyblion yn elwa o addysg mewn adeiladau safonol ysgolion yr 21ain ganrif.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"O'r diwedd! Mae [Ysgol Gynradd] Tref-y-Rhyg mewn cyflwr gwael iawn ac yn amlwg does dim modd ei gwella, mae gan ein disgyblion yr hawl i addysg mewn adeiladau safonol ysgolion yr 21ain ganrif."</i></p>	<p>Dydy Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ddim yn rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud yn y dyfodol agos i greu cyfleusterau ysgol yr 21^{ain} ganrif wedi'i gynllunio ar gyfer Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, a does dim cyllideb i wneud gwelliannau sylweddol yn y cyfamser.</p> <p>Gallai mynychu ysgol newydd sy'n bodloni safon ar gyfer y 21^{ain} ganrif arwain at welliant sylweddol yn ansawdd y profiad addysgol i ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r lleoedd dros ben</p>

	<p>sylweddol a'r gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac yn cynnig addysg fwy cynaliadwy yn yr ardal, gan ddarparu adnoddau gwell i fuddsoddi yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu, i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed.</p>
<p>Adroddiadau am broblemau gyda chyflwyno cais am le yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Rwy'n credu bod y penderfyniad yma wedi'i benderfynu ymlaen llaw. Rydw i'n meddwl hyn oherwydd wrth i mi wneud cais am le mewn dosbarth derbyn ar gyfer fy mab, beth bynnag roeddwn i'n ei chwilio, ni fyddai Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn ymddangos fel opsiwn. Dim ond pan gafodd Carfan Derbyn y Cyngor wybod am hyn y cafodd y broblem ei datrys."</i></p>	<p>Yn ystod y cyfnod derbyn i ysgolion rhwng 2 Medi 2024 a 8 Tachwedd 2024, derbyniodd y Cyngor geisiadau ar-lein ar gyfer Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025.</p> <p>Yn yr un modd ag unrhyw system ymgeisio ar-lein, gall fod diffygion technegol weithiau ac nid yw'r materion yma'n unigryw i rieni/gwarcheidwaid Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p>
<p>Dylai rhieni fod yn rhan o'r penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Gwrandewch ar y rhieni."</i></p>	<p>Pwrpas yr ymgynghoriad yw ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig, a dyma beth ddigwyddodd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ogystal â llenwi'r ffurflen ar-lein, cafodd rhieni/gwarcheidwaid gyfle i siarad â swyddogion y Cyngor yn rhan o'r broses statudol yn ystod y sesiynau galw heibio a gafodd eu trefnu yn y ddwy ysgol.</p>
<p>Mae'n well gen i gael cyfnodau oedran ar wahân ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Ysgol Gymuned Tonyrefail yw un o'r [ysgolion uwchradd] gorau yn ardal Rhondda Cynon Taf. Dim ond yr ysgol uwchradd, nid yr ysgol gynradd."</i></p>	<p>Mae Ysgol Gymuned Tonyrefail, gan ei bod yn ysgol pob oed (3 i 19), yn cynnig llawer o fanteision. Cryfder mwyaf ysgol pob oed yw dilyniant y profiad addysgol, sy'n negyddu'r gostyngiad yng nghyflawniad y disgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Mae ysgol pob oed yn rhoi cyfle i greu "pont" rhwng y cyfnodau dilyniant er mwyn sicrhau cyfnod pontio di-dor ar gyfer disgyblion o ran cynllunio'r cwricwlwm, dysgu ac addysgu. Bydd hyn yn galluogi aelodau o staff i rannu arbenigedd pwnc ac addysgeg gynradd, yn enwedig ar draws cyfnodau dilyniant.</p> <p>Mae'r ysgol pob oed yn hwyluso'r cyfnod pontio rhwng y grwpiau oedran ac mae staff ac athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda wrth iddyn nhw symud trwy'r ysgol. Mae hyn yn golygu bod modd iddyn nhw helpu'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol.</p>

	<p>Gall hefyd gyflawni effeithiolrwydd gwell trwy rannu adnoddau. Mae modd targedu'r adnoddau hynny, boed yr adnoddau'n ariannol, corfforol neu ddynol, mewn mannau allweddol. Mae buddion ychwanegol ysgolion pob oed 3 i 19 yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu addysgu arbenigol ym mlynnyddoedd 3 i 6 neu ymestyn rhaglenni llythrennedd a rhifedd i flynyddoedd 7 i 9 • Mae gan ddisgyblion y cyfnod cynradd fynediad at gyfleusterau'r cyfnod uwchradd • Darparu cyfleoedd o ran rhaglenni carlam ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog • Datblygiad Proffesiynol ar y cyd • Cyfeirio adnoddau at ddulliau ymyrraeth gynnar • Llunio cwricwlwm ar y cyd • Rhannu cyfarpar, caledwedd ac adeiladau • Cynyddu'r amrywiaeth a'r capasiti ar gyfer clybiau allgyrsiol/ar ôl ysgol • Creu swyddi gweinyddu ar y cyd
<p>Mae ysgolion llai yn well</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p>"Fyddai fy mhlant ddim yn ymdopi mewn ysgol fawr."</p> <p>"Mae rhieni'n elwa o'r teimlad cymunedol i'r ysgol fach yma ac mae modd iddo helpu eu plant i ffynnu llawer mwy nag y bydden nhw yn yr ysgol fawr lle byddai hynny'n sicr yn mynd ar goll."</p>	<p>Mae dyletswydd a chyfrifoldeb ar bob Cyngor i sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, waeth beth yw maint yr ysgol.</p> <p>Efallai bydd creu ysgolion mwy yn meithrin gallu o fewn strwythurau staffio ac yn creu cyfleoedd i ddatblygu swyddi lles a/neu gyswllt teuluol mwy arbenigol a fydd yn amlwg o fudd i blant a theuluoedd mwy agored i niwed.</p>
<p>Mae adeiladau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg mewn cyflwr gwael ac mae'r gofod allanol yn gyfyngedig.</p> <p>Mae'r wybodaeth a gafodd ei chyflwyno yn y Ddogfen Ymgynghori ynglŷn â chyflwr Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn anghywir.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Mae [Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg] angen ei hadnewyddu, neu hyd yn oed ei dymchwel... nid yw'r buarthau'n addas i blant; maen nhw'n</i></p>	<p>Mae'r Cyngor wedi adolygu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr arolwg cyflwr o ganlyniad i'r sylwadau a gafodd eu derbyn yn ystod y broses ymgynghori. Yn ystod y cyfnod rhwng cynnal ymweliad safle i arolygu cyflwr yr eiddo a'r broses sicrhau ansawdd sy'n digwydd cyn i'r arolwg cyflwr gael ei gymeradwyo (sy'n cynnwys asesiad o gost y gwaith gofynnol gan arbenigwyr), cwblhawyd gwaith penodol yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg na chawsant eu hadlewyrchu yn y ffigwr ôl-groniad cynnal a chadw a gafodd eu cyhoeddi yn adroddiad y Cabinet a'r Ddogfen Ymgynghori.</p>

<p><i>gorlifo yn y glaw heb unrhyw fynediad at ddraeniau neu o leiaf un sy'n cael ei gynnal a'i gadw mewn modd cyfoes...caewch yr ysgol yma."</i></p> <p><i>"Rwy'n teimlo nad yw'r ysgol bellach yn cyrraedd y safonau ar gyfer y plant."</i></p> <p><i>"Rwy'n credu bod angen edrych ar nifer o fanylion yn y Ddogfen Ymgynghori...megis yr [arolwg] ar gyflwr yr [eiddo]. Roedd yr [arolwg cyflwr eiddo] a ddefnyddiwyd [o] 2022. Mae nifer o brosiectau wedi'u cwblhau ers hynny."</i></p>	<p>Yng ngoleuni'r wybodaeth newydd yma, ac i sicrhau tryloywder llawn, ym mis Tachwedd 2024, ymgwymerodd y Cyngor ag arolwg newydd o gyflwr eiddo Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Yn ôl arolwg cyflwr eiddo diweddaraf, mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr, lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon. Yn ôl yr arolwg eiddo blaenorol a gafodd ei gynnal, cafodd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ei graddio'n C o ran cyflwr. Dylid nodi bod buddsoddiad pellach ers cwblhau'r arolwg cyflwr adeiladu yn 2022 wedi cyfrannu at ail-gategoreiddio cyflwr yr Ysgol.</p> <p>Yn ôl yr arolwg diweddaraf o gyflwr eiddo, mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg tua £456,372, tra bod yr arolwg cyflwr eiddo blaenorol a gafodd ei gynnal yn dangos bod y ffigwr ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg tua £381,040. Yn ogystal â'r wybodaeth ddiwygiedig sydd wedi'i chynnwys yn yr arolwg cyflwr, mae'r ffigwr newydd yn adlewyrchu'r cynnydd yng nghostau cyfraddau presennol y farchnad.</p> <p>Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae dyletswydd ar y Cyngor i gynnwys gwybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghori yn ymwneud ag ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn yr holl ysgolion presennol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gynnig, gan gynnwys cyfeiriad at arolwg cyflwr diweddaraf yr awdurdod lleol.</p>
<p>Mae'r wybodaeth a gaiff ei chyflwyno yn y Dogfennau Ymgynghori yn rhagfarnllyd o blaid Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"[Mae'r Cyngor wedi cyflwyno [Dogfen Ymgynghori] sy'n dangos tuedd ofnadwy], a chafodd ei rannu â'r cyhoedd yn gyflym, yn llawn data ac adroddiadau anwir."</i></p>	<p>Diben y Ddogfen Ymgynghori yw cyflwyno cynnig, ac mae'r ffaith mai cynnig yn unig oedd dan sylw ar y pryd wedi'i nodi'n gyson trwy gydol y Ddogfen Ymgynghori. I gadarnhau, mae'r holl wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno wedi'i gwneud yn unol â <u>Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018)</u>.</p>
<p>Mae'r parcio yn Ysgol Gymuned Tonyrefail eisoes yn broblemus iawn.</p>	<p>Yn rhan o'r buddsoddiad sylweddol yn Ysgol Gymuned Tonyrefail, canolbwyntiwyd yn benodol ar wella'r trefniadau rheoli traffig ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys gwell</p>

<p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"A minnau'n byw yn lleol, cawson ni sicrwydd y byddai MWY NA DIGON o leoedd parcio ar y safle ar gyfer aelodau o staff a rhieni. Byddwn i'n awgrymu bod rhywun yn gwirio hyn ar wahanol adegau o'r dydd, a gwirio effaith yr anrhefn ar drigolion lleol, lle mae pobl yn parcio ar y palmentydd, cyrbiau isel, ymylon glaswellt, ac ati."</i></p>	<p>parcio i staff a chreu man gollwng pwrpasol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol.</p> <p>Mae'r gwaith yma wedi parhau, ac yn ddiweddar rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Gymuned Tonyrefail a chydweithwyr o'r Adran Drafnidiaeth, Priffyrdd ac Iechyd a Diogelwch i wneud rhai gwelliannau i'r maes parcio i gynorthwyo'r ysgol i'w reoli. Mae rhywfaint o'r gwaith yma eisoes wedi'i gyflawni ac mae mwy o welliannau wedi'u cynllunio ar gyfer y tymor nesaf.</p> <p>Mae parcio yn her yn y mwyafrif o ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol oherwydd yn anffodus, mae mwyafrif y disgyblion yn teithio mewn ceir yn hytrach na cherdded. Os bydd angen, byddwn ni'n cefnogi'r ysgol gyda chymorth Sustrans i ddiweddarau eu Cynllun Teithio Llesol fel bod modd darparu rhagor o fentrau teithio. Byddwn ni'n cymryd arweiniad gan yr ysgol ar y mater yma.</p>
<p>Mae'r cynnig wedi'i seilio'n llwyr ar wneud arbedion ariannol.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Ychydig iawn o ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i addysg a lles disgyblion. Mae'r penderfyniad yma yn cael ei seilio ar resymau ariannol sy'n amharu'n sylweddol ar y plant."</i></p>	<p>Amlinellir goblygiadau ariannol y cynnig yn y Ddogfen Ymgynghori. Dylid nodi bod y rhesymau dros y cynnig yn amlochrog ac nad ydyn nhw'n seiliedig ar wneud arbedion ariannol yn unig. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai manteision symud i ysgol pob oed sy'n fwy hyfyw yn addysgol ac yn ariannol yn cael eu gwireddu.</p>
<p>Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal ddifreintiedig.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Mae disgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn dod o ardal fwyaf difreintiedig Tonyrefail ac ni fyddai modd iddyn nhw fforddio trafnidiaeth gyhoeddus bob dydd. Rydw i'n cytuno gyda chau'r ysgol ond rwy'n meddwl y dylid rhoi trefniadau cludiant ar waith."</i></p> <p><i>"Gan ei bod yn ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol, fydd dim modd i rieni fforddio costau cludiant i'r ysgol uwchradd."</i></p>	<p>Caiff yr holl sylwadau mewn perthynas ag amddifadedd eu nodi.</p> <p>Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig wedi'i baratoi yn unol â gofynion <u>Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018)</u>.</p> <p>Mae Adran 3 o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol y Cyngor mewn perthynas â'r cynnig yma. Caiff yr anfantaision economaidd-gymdeithasol sy'n berthnasol i'r ardal eu rhestru gan ddefnyddio data o Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Caiff pob anfantais ei hystyried o fewn cyd-destun y cynnig, ac mae effaith y</p>

<p>“Rydyn ni mewn ardal ddifreintiedig iawn yn Nhonyrefail. Mae hyn yn dod i'r amlwg yn eithaf aml yn yr ysgol, gyda phlant naill ai angen mynychu'r clwb brecwast i dderbyn brecwast y bore hwnnw, neu wisg ysgol yn cael ei rhoi i deuluoedd gan nad oes modd iddyn nhw ei fforddio'n aml.”</p>	<p>cynnig ar bob anfantais wedi'i restru yn fanwl gyda thystiolaeth.</p>
<p>Nid yw'r safle yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae gyda hi broblemau hygyrchedd.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>“Mae gan fy ngŵr broblemau wrth gerdded i fyny ac i lawr y grisiau oherwydd salwch, ac mae'n casglu ei blant o'r ysgol bob wythnos. Nid oes mynediad hawdd ar gyfer cadeiriau olwyn nac unrhyw un â chymhorthion cerdded.”</i></p>	<p>Nid yw'r safle ei hun nac adeilad ysgol Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cydymffurfio'n llawn â'r <u>Ddeddf Cydraddoldeb 2010</u> ac mae problemau sylweddol gyda mynediad.</p> <p>O edrych ar y nodwedd warchoddedig 'anabledd' yn unig, nid yw safle ac adeilad yr ysgol ar safle Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cydymffurfio i raddau helaeth. Oherwydd topograffeg ac oedran yr adeiladau, mae'n anochel y bydd rhai mannau o'r ysgol a'r safle yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ddim yn hygyrch i'r rheiny sy'n profi anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.</p> <p>Bwletin Adeiladu 99 (BB99): Mae pob Cyngor yng Nghymru yn defnyddio Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd yn ganllaw i adeiladu ysgolion newydd. Mae BB99 yn nodi'r canlynol:</p> <p><i>O ran cyd-destun cynllun y dosbarthiadau, mae 'cwbl hygyrch' yn golygu bod modd i ddisgybl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i bob rhan o'r ystafell, ac felly mae modd iddo gymryd rhan mewn gweithgareddau'n rhwydd.</i></p>
<p>Mae nifer sylweddol o ddatblygiadau tai wedi eu cynllunio ar gyfer yr ardal, a fydd yna le ar gyfer y plant hynny pe bai Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cau?</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>“Mae'r dalgylch ar fin ehangu gyda'r datblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu yn yr ardal, felly bydd angen yr ysgol.”</i></p>	<p>O ran rhagamcanion disgyblion, mae'r Cyngor yn casglu data geni gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer ardal Rhondda Cynon Taf. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu dyddiad geni a chod post pob disgybl. Mae hefyd lwfans ar gyfer datblygiadau tai newydd a disgyblion presennol er mwyn sicrhau bod y rhagamcanion yn gywir.</p> <p>Mewn perthynas â disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol, rydyn ni'n defnyddio'r dull cadw cohort. Mae hyn yn golygu cymryd yn ganiataol bod nifer y disgyblion ym mhob blwyddyn yr un ffigur â'r flwyddyn flaenorol, a lluosir'r ffigur hwnnw â ffigur cyson.</p>

	<p>Mae datblygiadau tai yn cael eu hystyried ac yn cael eu cynnwys ym mhob amcanestyniad ysgol ac yn ffurfio rhan o ddatganiadau CYBLD y Cyngor i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae cyfradd genedigaethau yn gostwng sy'n effeithio ar niferoedd disgyblion ledled Rhondda Cynon Taf, dyma'r duedd genedlaethol hefyd, felly mae unrhyw gynnydd mewn rhagamcanion niferoedd disgyblion a gynhyrchir gan ddatblygiadau tai yn cael eu mesur yn erbyn effaith y gyfradd genedigaethau sy'n gostwng. Felly, mae datblygiadau tai llai yn ei hanfod yn cael effaith fach iawn ar gapasiti ysgolion ac felly rhagamcanion niferoedd disgyblion.</p>
<p>Mae llawer o ddatblygiadau tai yn yr ardal, gan gynnwys tai cymdeithasol. Ydy'r rhain wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniadau?</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Mae angen ein hysgol ni yn yr ardal. Mae tai newydd yn yr ardal yn golygu bod angen ein hysgol ni."</i></p>	<p>Do. Bob blwyddyn mae Gwasanaeth Datblygu ac Adfywio'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am ddatblygiadau arfaethedig gyda chyfanswm nifer y tai a ddisgwyilir iddyn nhw gael eu hadeiladu bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf. Defnyddir datblygiadau ar gyfer 10 neu fwy o dai at ddibenion rhagamcanion, ac yna dim ond eiddo lle mae 2 ystafell wely neu fwy sy'n cael eu cynnwys. Ar ôl hynny rydyn ni'n rhannu'r data â'r dalgylchoedd ysgol perthnasol er mwyn cynhyrchu amcangyfrifiad o nifer y disgyblion ychwanegol a ddisgwyilir.</p> <p>Mae rhagdybiaeth y bydd pob tŷ newydd sy'n cael ei adeiladu yn cynhyrchu disgyblion ychwanegol yn yr ysgolion lleol a dydy hyn ddim yn wir. Dydy plant hyd at 4 oed ddim yn ddisgyblion ysgol felly mae'r rhain yn cael eu diystyru. Mae plant sy'n hŷn nag 11 oed yn mynychu ysgolion uwchradd. Bydd rhai o'r plant sy'n symud i mewn eisoes yn mynychu ysgolion lleol a bydd rhai o'r plant sy'n symud i mewn yn dewis aros yn eu hysgolion presennol. Bydd rhai disgyblion yn dechrau mynychu darpariaethau arbenigol, rhai disgyblion yn mynychu ysgolion ffydd, ac rydyn ni'n dyrannu 20% ar gyfer y rhai sy'n dymuno mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, er mai'r gred yw y bydd tai newydd yn arwain at gynnydd mawr yn nifer y disgyblion, dydy hyn ddim o reidrwydd yn wir.</p>

	<p>Mae'n bwysig nodi bod nifer o ardaloedd ledled Rhondda Cynon Taf sydd â niferoedd uchel o dai cymdeithasol a does dim un o'r ysgolion yn yr ardaloedd hynny'n llawn. Mae hefyd angen cydbwysu cynnyrch disgyblion o dwf tai yn erbyn y gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau y mae Rhondda Cynon Taf ac Awdurdodau eraill yn ei brofi, ac rydyn ni'n hyderus bod y fethodoleg rhagamcanu disgyblion a gaiff ei ddefnyddio'n gadarn ac yn rhoi'r data angenrheidiol i ni reoli lleoedd ysgol yn effeithiol.</p> <p>Mae rheoli lleoedd ysgol yn gyfrifoldeb statudol ac rydyn ni'n adolygu niferoedd yn rheolaidd. Mae dull y Cyngor o ragamcanu niferoedd disgyblion wedi bod o fudd i ni. Mae gan y Cyngor enw da am gynllunio a rheoli lleoedd ysgol yn llwyddiannus ac rydyn ni'n hyderus yn y fethodoleg rydyn ni'n ei ddefnyddio.</p>
<p>Bydd diffyg darpariaeth clwb brecwast yn Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>“Efallai na fydd y plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ar hyn o bryd yn cael cynnig yr un cyfleoedd os ydyn nhw'n cael eu gorfodi i newid ysgol gan y bydden nhw o bosibl yn colli mynediad at bethau y mae [Ysgol Gynradd Tref y Rhyg] yn ei chynnig ar hyn o bryd, megis clwb brecwast.”</i></p>	<p>Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cynnal clwb brecwast. Mae'r clwb brecwast sy'n gweithredu yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn hynod boblogaidd gyda thua 106* o ddisgyblion yn cael brecwast bob dydd. Mae'r clwb brecwast sy'n gweithredu yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg gyda thua 31* o ddisgyblion yn cael brecwast bob dydd. Serch hynny, bydd y clwb brecwast yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn parhau ac ar gael i ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. *Ffigurau yn seiliedig ar ffigurau presenoldeb dyddiol cyfartalog y tymor yma.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y clwb brecwast yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn parhau ac ar gael i ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p>
<p>Bydd diffyg darpariaeth ar ôl ysgol yn Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>“Mae yna broblemau eisoes gyda diffyg cefnogaeth cyn/ar ôl ysgol i'r plant sydd eisoes yn Ysgol Gymuned Tonyrefail ... gan arwain at nifer o blant yn colli allan.”</i></p>	<p>Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cynnal nifer o weithgareddau allgyrsiol. Yn dibynnu ar y tymor, mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cynnig gweithgareddau ar ôl ysgol, megis clybiau chwaraeon, celf a chreffft, Lego, cerddoriaeth, a dosbarthiadau Iaith Arwyddion Prydain, i enwi dim ond y rhai. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn cynnwys 'Art Attack', pêl-fasged, clwb dysgu gartref, clwb cyfrifiadureg, clwb</p>

	<p>adeiladu, digi wizards, clwb dungeons and dragons, clwb ffitrwydd, pêl-droed, clwb meistr gemau, aml-chwaraeon, pêl-rwyd, darllen er pleser, rygbi, clwb STEM a chlwb Cymraeg. Mae'r ddwy ysgol hefyd yn darparu gwasanaeth cyfnewid gwisg ysgol.</p> <p>Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd y gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Gymuned Tonyrefail yn parhau ac ar gael i ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.</p> <p>Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu clybiau ar ôl ysgol ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol.</p>
<p>Ymddengys fod Ysgol Gymuned Tonyrefail eisoes yn llawn.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Mae [Ysgol Gymuned Tonyrefail] eisoes yn edrych yn rhy boblog."</i></p>	<p>Darllenwch yr ateb uchod:</p> <p><i>A oes lle yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg?</i></p>
<p>Dylai Ysgol Gymuned Tonyrefail fod wedi'i gwneud yn fwy pan gafodd ei hymestyn yn ddiweddar.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Dyma enghraifft o gynllunio gwael gan [y Cyngor], pan gafodd Ysgol Gymuned Tonyrefail ei hymestyn, dylai fod lleoedd dros ben."</i></p>	<p>Roedd Ysgol Gymuned Tonyrefail yn rhan o fuddsoddiad hamdden ac addysg ehangach gwerth £44 miliwn yn lleol, a oedd yn cynnwys cae chwaraeon 3G newydd at ddefnydd yr ysgol a'r gymuned ar gyfer Canolfan Hamdden Tonyrefail gerllaw – ynghyd â chyfleusterau addysgu arbenigol ar gyfer dosbarthiadau addysg gorfforol i'w cynnal yng Nghanolfan Hamdden Tonyrefail. Mae capasiti Ysgol Gymuned Tonyrefail yn ddigonol ar gyfer y dalgylch, dim ond 35.0% o'r disgyblion sy'n mynychu'r cyfnod cynradd yn Ysgol Gymuned Tonyrefail ar hyn o bryd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p>
<p>Trefniadau pontio</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Dydw i ddim yn hapus bod fy mab wedi ymgartrefu yn ei ddosbarth ac mae meddwl am ei anfon i rywle arall yn fy nychryn i."</i></p> <p><i>"Mae hyn yn peri gofid mawr."</i></p>	<p>Rydyn ni'n deall y bydd rhai disgyblion efallai'n teimlo'n bryderus ar y dechrau am y posibilrwydd o symud i ysgol newydd mwy o faint ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ac Ysgol Gymuned Tonyrefail. Mae proses bontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academiaidd a</p>

	<p>bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymglyfarwyddo ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff.</p>
<p>Mae arolygiad Estyn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn well.</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Mae'r ysgol sy'n cau wedi cael canlyniadau eithriadol yn adolygiadau Estyn ers amser sylweddol, ond rwy'n meddwl bod yr ysgol rydych chi'n symud disgyblion iddi wedi bod yn destun mesurau arbennig a does gyda hi ddim hanes o lwyddiant."</i></p>	<p>Cafodd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ei harolygu gan Estyn ym mis Chwefror 2017. Bryd hynny, barnwyd bod cyflawniad Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn ddigonol tra bod ei rhagolygon gwella yn dda. Argymhellodd Estyn hefyd nifer o welliannau i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg eu rhoi ar waith er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael.</p> <p>Cafodd Ysgol Gymuned Tonyrefail ei harolygu gan Estyn ym mis Mai 2022. Argymhellodd Estyn welliannau i Ysgol Gymuned Tonyrefail eu rhoi ar waith er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael.</p> <p>Barn y Cyngor yw y gallai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gymuned Tonyrefail erbyn mis Medi 2025 fan bellaf, gael effaith gadarnhaol fawr ar bob un o bum maes arolygu Estyn, fel sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.</p> <p>Mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn llawn fel atodiad i'r adroddiad yma.</p>
<p>Pam nad yw'r Cyngor wedi buddsoddi mwy yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ers degawdau?</p> <p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Pam nad oes hwb i fuddsoddiad yn yr adeilad i'w wneud yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y 21^{ain} ganrif?"</i></p>	<p>Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod ei adeiladau'n ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes. Mae'r Cyngor wedi gwneud hynny. Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg wedi bod yn destun ymweliadau rheolaidd gan Garfan Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor a'i gontractwyr, ac mae wedi ymweld ag Ysgol Gynradd y Rhigos yn rheolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw cylchol ac arolygon o offer mecanyddol a thrydanol.</p> <p>Mae pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau ac mae gwaith yn cael ei gynnal a'i reoli drwy'r cytundeb yma.</p>
<p>Canlyniad hyn fydd maint dosbarthiadau Ysgol Gymuned Tonyrefail yn rhy fawr, gyda gormod o ddisgyblion.</p>	<p>Dydy hyn ddim yn wir. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd lle yno. Mae lle yno i dderbyn</p>

<p>Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:</p> <p><i>"Pan gysylltais â Charfan Derbyn y Cyngor i gael gwybod a oedd lle i fy merch yn Ysgol Gymuned Tonyrefail, dywedon nhw nad oedd lle yno."</i></p>	<p>y disgyblion ychwanegol o Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn Ysgol Gymuned Tonyrefail.</p>
--	---

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:

1. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?
2. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
3. Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Mae'r tabl dilynol yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd eu derbyn gan yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau. O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n dod law yn llaw â'r cynnig yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad						
Cwestiynau	Atebion					
	Nac ydw		Do		Ddim yn siŵr	
	Rhif	%	Rhif	%	Rhif	%
Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg?	53	59.5	7	7.9	29	32.6
Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	41	46.1	9	10.1	39	43.8
Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?	Cynyddu Effeithiau Cadarnhaol		Lleihau Effeithiau Negyddol		Ddim yn siŵr	
	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gyda ni ysgol uwchradd newydd sy'n lle'r Saesneg sy'n cael ei siarad yn bennaf, mae rhieni/gwarcheid waid yn naturiol yn mynd i fod 		<ul style="list-style-type: none"> • Cadw'r ysgol gymunedol yn y gymuned. • Dylai fod ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn ward Dwyrain Tonyrefail. 		<ul style="list-style-type: none"> • Dd/B 	

	<p>eisiau anfon eu plant i'r ysgol newydd. Os yw Llywodraeth Cymru am i'r Gymraeg oroesi, mae angen iddyn nhw fuddsoddi mwy yn ysgolion Cymraeg yr ardal.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, efallai y bydd rhai rhieni/gwarcheid waid yn dewis anfon eu plant i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail yn y dyfodol gan ei fod ychydig yn nes. 		
--	---	--	--

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly yn rhan o'r gwaith o geisio barn ar y cynnig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys y cwestiwn a ganlyn:

1. Sut byddai'r cynnig yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:

1. Rhyw
2. Oedran
3. Ethnigrwydd
4. Anabledd
5. Rhywioldeb
6. Crefydd neu gred
7. Hunaniaeth rhywedd:
8. Statws perthynas
9. Beichiogrwydd
10. Iaith o'ch dewis

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif, sef 86.2%, na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw un o'r nodweddion a gafodd eu rhestru. Tra bod 8.1% wedi dweud y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Anabledd', dywedodd 2.4% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Statws Perthynas' a dywedodd 1.1% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodweddion 'Oedran', 'Rhywioldeb' a 'Beichiogrwydd'. O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y gallai'r cynnig gael effaith negyddol arnyn nhw oherwydd eu hanabledd. Roedd y sylwadau a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:

- Mae gen i ffibromyalgia ac rwy'n ei chael hi'n anodd cerdded yn bell neu yrru bron bob dydd. Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg daflriad carreg o fy nghartref ac mae hefyd yn

gyfleus os ydw i'n sâl, mae modd i aelod o'r teulu sy'n byw rownd y gornel godi fy mab o'r ysgol ar fy rhan, ond byddai hyn yn anodd mewn ysgol arall.

- Mae gan fy merch ADY, a bydd cau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn rhwystr mawr i'w dysgu a'i datblygiad. Rydw i'n poeni am ei dyfodol addysgol gyda'r newid yma. Fydd fy merch ddim yn cael y cymorth sydd ei angen arni mewn dosbarthiadau enfawr, lle mae staff dan bwysau a ddim yn derbyn digon o gefnogaeth.
- Mae gan fy mab a minnau anabledau. Pan fydda i'n sâl, mae fy nghynhaliwr yn cerdded fy mab i'r ysgol, os yw'n mynd i ysgol arall, bydd angen cludiant am ddim arno gan eich bod chi'n cau ei ysgol agosaf.

O ganlyniad i'r ymatebion yma, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ymwneud â'r cynnig yma'n cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

6. Ymateb Estyn

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (Ail Argraffiad) (011/2018), mae'r ymateb i'r cynnig gan Estyn wedi'i ddarparu'n llawn yn Atodiad 3 – Ymateb Estyn. Dydy Estyn ddim yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) ac nid yw'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Ystyriodd Estyn y posibilrwydd bod y cynnig yma'n debygol o gynnal ansawdd y ddarpariaeth addysgol a deilliannau i ddisgyblion yr ardal, ar y lleiaf.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018), mae'r meysydd ymateb gan Estyn sy'n gofyn am eglurhad wedi'u nodi yn y tabl sy'n dilyn.

Ymateb Estyn	
Ymateb Estyn	Eglurhad
Mae'r cynnig yn ystyried, i raddau, effaith y cynnig ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag ADY, ond nid yw'n darparu digon o wybodaeth yn y maes yma. Mae'n nodi y bydd 'adeilad cwbl hygyrch a darpariaeth mannau hyblyg a fydd yn galluogi Ysgol Gymuned Tonyrefail i ymestyn ei harfer dda a hwyluso ymyriadau pellach, gan gynnwys ffyrdd o feithrin disgyblion yn ogystal ag ymgysylltu parhaus â theuluoedd a'r gymuned leol. Serch hynny, nid yw'n nodi'n benodol sut y bydd yn diwallu anghenion y cynnydd yn nifer y disgyblion ADY (9) a fydd o bosibl yn trosglwyddo i'r ysgol a bron, gan ddyblu eu nifer presennol o ddisgyblion ADY (10).	<p>Mae ysgolion yn derbyn lefel uchel o Gyllid Gwella Capasiti (ECF) dirprwyedig yn ychwanegol at eu cyllideb ysgol gyffredinol a'r ADY tybiedig hanesyddol o 5.0%. Yn unol â'r fformiwla a gaiff ei defnyddio i gyfrifo dyraniadau Cyllid Gwella Capasiti i ysgolion, bydd Ysgol Gymuned Tonyrefail yn derbyn cynnydd yn ei Gyllid Gwella Capasiti i ystyried nifer ychwanegol y disgyblion ar gofrestr yr ysgol. Bydd hyn yn cefnogi'r ysgol i ddarparu Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDdY) briodol i fodloni anghenion disgyblion ag ADY, e.e. adnoddau staffio ychwanegol, gweithredu ymyriadau penodol, offer ac adnoddau ADY, ac ati.</p> <p>Bydd modd i Ysgol Gymuned Tonyrefail hefyd ofyn am gymorth gan Garfan Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor ar sail systemig a disgybl unigol. Bydd y Seicolegydd Addysg dynodedig ar gyfer Ysgol Gymuned</p>

Ymateb Estyn	
Ymateb Estyn	Eglurhad
	Tonyrefail yn cynnal cyfarfod cynllunio ADY strategol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i nodi blaenoriaethau allweddol i'r ysgol o ran cefnogi'r cynnydd yn nifer y disgyblion ag ADY sy'n cael mynediad i'r ysgol.

7. Aseiad o'r Ymgynghoriad

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018), rydyn ni wedi cynnal aseiad pellach o'r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad ar yr un materion a gafodd eu hasesu wrth lunio'r cynnig, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad.

Ar ôl ystyried y cynnig ymhellach, ac ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cynnig yn mwybodol, mae'r casgliadau y mae modd eu cyrraedd isod.

8. Casgliad

Ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, gwybodaeth gysylltiedig a chynnwys yr adroddiad yma, mae'n ofynnol i'r Cabinet benderfynu a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r cynnig, ac os felly sut.